

Cyd-destun fy ysgol lleoliad a’r gymuned

Yn fy ysgol lleoliad i,mae 325 (2019) o ddisgyblion. Gweler ar wefan ‘Fy ysgol leol’, bod Saesneg yn iaith ychwanegol i 3.1% o’r disgyblion hyn, yn ogystal mae 5.1% o’r disgyblion yn dod o gefndir o leiafrif ethnig. Yn ôl adroddiad Estyn ar fy ysgol lleoliad yn 2013 roedd tua 42% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg adref, nodai hefyd mai dim ond 31% o’r disgyblion oedd o aelwydydd lle bo’r Gymraeg yn brif iaith. Mae hon yn ysgol ddwy ffrwd, gyda 3 dosbarth ffrwd Saesneg ac wyth dosbarth ffrwd Gymraeg.

Cymdeithasol-economaidd

Yn yr ysgol, mae tua 10.3% o’r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim, mae’r ffigwr yma yn sylweddol is na ffigyrau’r sir a’r Llywodraeth. Mae’r ffigwr o ddisgyblion sydd ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol (ADY) yn 26% sydd yn uwch na’r gyfartaledd cenedlaethol. Lleolir fy ysgol lleoliad mewn ardal nad yw’n cael ei hadnabod yn lewyrchus nac ychwaith o dan unrhyw anfantais economaidd. Fel y soniais eisoes, dim ond 10.3% o’r disgyblion sydd â’r hawl i ginio ysgol am ddim.

Ethnigrwydd a chrefydd

Fel y gwelir yn y tabl ar y dde, mae’r canran o ddisgyblion sydd ddim o dras gwyn Prydeinig wedi lleihau yn sylweddol yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf. Erbyn hyn, mae’r ganran o ddisgyblion o grwpiau ethnig sydd ddim yn wyn yn yr ysgol bron hanner y canran i Gymru gyfan. Felly, dim ond ychydig iawn o blant sydd o gefndir ethnig cymysg yn yr ysgol (Estyn,2013)

Diwylliant


Mae pwyslais enfawr ar ddathlu Cymreictod a thraddodiadau Cymreig yn fy ysgol lleoliad. Mae pwyslais cryf hefyd ar ddathlu traddodiadau gwledydd eraill megis blwyddyn Newydd Tseiniaidd ac ati.

Cysylltu’r dysgwr â’r gymuned

Mae’r ysgol yn ymwneud â nifer o brosiectau cymunedol.Ymhelaethaf ar rai. I ddechrau, mae’r **Siarter iaith** yn chwarae rôl allweddol ym mywyd yr ysgol, daw hyn i’r amlwg yng ngweithgareddau ac mewn arddangosfeydd yn nosbarthiadau’r ysgol. Drwy ymrwymo i’r prosiect yma mae’r ysgol yn clymu eu hunain i’r gymuned ehangach sef Cymru fel gwlad, a’i iaith a’i diwylliant. Un ffordd y mae’r ysgol yn hybu’r Gymraeg gyda’u disgyblion yw drwy eu gwobrwyo am siarad y Gymraeg. Buasai Pavlov yn cytuno gyda hyn, gan ddweud bod cŵn, a phlant yn yr un modd, yn cysylltu’r wobwr â’r weithred, ac felly yn fwy tebygol o ailadrodd y weithred ar mwed bod cael yr un canlyniad, sef y wobwr. Dadleuai Pavlov bod hyn yn ymddygiad sydd yn cael ei ddysgu dros amser a thrwy wobrwyo. Gall hyn fod yn un rheswm pam bod mwy a mwy o Gymraeg i’w chlywed yn fy ysgol lleoliad wrth fynd i fynyr ysgol, hynny yw fel mae’r disgyblion yn mynd yn hŷn mae mwy o Gymraeg i’w glywed ganddynt. Mae eu meddyliau wedi cael eu cyflyru i wybod bod siarad Cymraeg yn rhywbeth positif sydd yn gallu diweddu â gwobr. Damcaniaethwr arall y buasai’n cytuno gyda’r strategaeth yma o wobrwyo yw Skinner. Yn yr un modd â Pavlov, dywed Skinner bod ymddygiad da sydd yn cael ei gysylltu â gwobr yn fwy tueddol o gael ei ail-adrodd, a bod ymddygiad sy’n gysylltiedig â chosb yn llai tebygol o gael ei ail-adrodd.

“ Building home-school links through out of hours’ clubs, parenting classes, extended schools and outreach work can lead to improvements in completion of homework, learning behaviours and improved attendance.”  
(Yr Adran Addysg Lloegr,2011)

Bronfenbrenner’s Ecological Systems Theory



(Ffynhonnell:PsychologyHQ, 2019)

Damcaniaeth Bronfenbrenner

- Gellir cysylltu damcaniaeth ecolegol Bronfenbrenner gyda’r syniad yma o roi profiadau o fewn y gymuned i ddysgwyr. Yn ôl Bronfenbrenner, mae’r fframwaith yma yn helpu i roi strwythur i’r ffactorau o fewn y gymuned a all effeithio ar blant a’u datblygiad yn yr ysgol. Yn ogystal, Fframwaith Ecolegol Bronfenbrenner yw cyfres o ffactorau amgylcheddol a phersonol a all effeithio ar ddatblygiad plentyn. Gelwir y ffactorau yma yn;
- Microsystem
  - Mesosystem
  - Ecosystem
  - Macrosystem
  - Chronosystem (Bronfenbrenner 1979).
1. Mae’r microsystem yn cyfeirio at ‘amgylchedd uniongyrchol’ y plentyn, a all gynnwys; cyd-destunau teulu agos, cymdogaeth neu ysgol (Berk, 2000). Y microsystem sy’n cael y dylanwad mwyaf ar ddatblygiad plant ac sydd yn gallu creu profiadau a all fod yn hynod fuddiol, neu’n niweidiol i’w datblygiad (Rogoff, 2003). Mae’r prif ddylanwad hwn yn deillio o’r plentyn yn datblygu cariad ac ymddiriedaeth ar gyfer aelodau sylweddol o’r teulu a all helpu i greu neu niweidio meddylfryd iach (Pipher, 1996 a Swick, 2004). Yng nghymuned fy ysgol, mae’n amlwg bod y microsystem yn cael effaith ar ymddygiad plant a chyflawniadau academaidd.
  2. Mae’r mesosystem yn cysylltu dylanwadau agos amrywïol o’r microsystem gyda’i gilydd ac yn darparu’r cysylltiadau â gwahanol rannau o fywyd y plentyn megis gan fydd athrawon yn cyfathrebu â rhieni (Bronfenbrenner, 1979, Berk, 2000, Kawk a Jain, 2016).
  3. Mae’r ecosystem yn portreadu system gymdeithasol fwy lle nad yw’r plentyn yn gweithredu’n uniongyrchol. Mae’r dylanwad o’r system hon yn digwydd trwy ryngweithio â strwythurau eraill (Berk, 2000), megis amserlenni gwaith rhieni neu bwysau bywyd teulol (Bronfenbrenner, 1994 a Galinsky, 1999).
  4. Mae’r macrosystem yn ymwneud yn fwy â’r dylanwadau diwylliannol ac anuniongyrchol sy’n effeithio ar blentyn a’i ddatblygiad. Mae hyn yn cyfeirio at ddylanwad sefydliadau sydd yn gysylltiedig â’r plentyn gan gynnwys: grwpiau crefyddol, ethnigrwydd neu ddosbarth cymdeithasol (Berk, 2000 a McLaren a Hawe, 2005). Mae Shelton a Brownhill (2008) yn awgrymu bod gan blentyn sydd wedi bod yn agored i grefydd o oedran ifanc ymddygiadau ac agweddau gwahanol tuag at yr ysgol oherwydd y normau diwylliannol a arddelir arnynt. Yn olaf, mae’r Chronosystem yn cyfeirio at ddylanwad amser a sut mae’n cysylltu ag amgylchedd y plentyn. Gall rhain fod yn ddylanwadau allanol, megis: marwolaeth aelod agos o’r teulu neu ddylanwadau mewnlol fel y glasod (Bronfenbrenner,1989; Shaffer a Kipp, 2010). Gall dylanwadau ychwanegol, er enghraifft, ysgariad ddylanwadu’n fawr ar sut mae plentyn yn datblygu, yn dibynnu ar sut mae’r ysgariad yn datblygu ac ar ba gam y mae’n digwydd ym mywyd plentyn (Shaffer a Kipp, 2010).
  - 5.

# Dechrau wrth fy nhraed

|                | 2013  | 2014  | 2015  | 2016  | 2017  | 2018  | 2019  |
|----------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Ysgol          | 10.5% | 11.5% | 9.3%  | 8.9%  | 7.8%  | 5.3%  | 5.1%  |
| Awdurdod Lleol | 5.8%  | 6.4%  | 7.1%  | 7.4%  | 7.7%  | 7.8%  | 8.2%  |
| Cymru          | 9.5%  | 10.1% | 10.7% | 11.3% | 11.8% | 12.2% | 12.5% |

(Ffynhonnell:Estyn,2019)

Cyfathrebu effeithiol gyda’r cartref

Ermwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol, mae angen cyswlt rheolaidd rhwng yr ysgol â’r cartref. Yn fy ysgol lleoliad i, mae’r ysgol yn gyrru llythyrau rheolaidd adref i’r rhieni, mae hynyn un ffordd o gyfathrebu. Yn ogystal, mae’r wefan yn cael ei diweddu yn gyson. Mae’r arolygaeth Estyn yn cyndabod bod cynnwys y rhieni yn addysg y plentyn yn arfer effeithiol. Drwy wneud hyn mae’n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a’u lles. (Estyn, 2019)



Dysgu’n drawsgwricwlaidd

Mae cystadlu yn yr urdd yn enghraifft o ddysgu trawsgwricwlaidd. Mae’r disgyblion yn cael y cyfle i ymarfer patrymau iaith Cymraeg ac ymarfer eu sgiliau iaith Cymraeg yn gyffredinol drwy adrodd neu ganu. Wrth ddarllen ‘Cross-Curricular Learning 3-14’ gan Jonathon Barnes, dysgais bod gwaith tebyg i hyn yn cryfhau’r berthynas rhwng ochr chwith a de yr ymennydd. Hynny yw, bod plant ddim yn unig yn cysylltu iaith er enghraifft gydag ysgrifennu neu ddarllen, ond eu bod hefyd yn ymwybodol eu bod yn gallu ymarfer eu sgiliau iaith drwy ganu actio a pherfformio. Mae’r syniad yma o addysg drawsgwricwlaidd yn cael ei gydnabod fel arfer effeithiol gan Estyn. Drwy addysgu yn draws gwricwlaidd mae’n datblygu hyder y disgyblion wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau sydd yn aml tu hwnt i’r ystafell ddosbarth. Gall hyn roi rhwydd hynt i ddisgyblion allu arbrofi â’u sgiliau a’u datblygu mewn gwahanol ffyrdd. Yn ogystal yn ôl Estyn- “ Wrth sicrhau fod yr addysgu’n greadigol ac ymatebol, mae’r disgyblion yn gwneud cysylltiadau gyda sefyllfaoedd bywyd go iawn, ac felly mae’n ystyrlon a phwrsopol.

Cysylltu’r dysgwr â’r ysgol

Mae fy ysgol lleoliad i yn cynnig nifer o brofiadau amrywïol i’w disgyblion sydd yn ymwneud â’r gymuned, boed yn gymuned leol, genedlaethol neu fyd eang. Annoga’r ysgol i’w holl ddisgyblion gymryd rhan mewn gwahanol brosiectau neu bwyllgorau sydd yn ymwneud â’u cymuned. Yn yr ysgol hon, mae nifer o bwyllgorau gwahanol y mae disgyblion y CA2 yn rhan ohonynt, rhai enghreifftiau yw’r Cyngor Ysgol y Cyngor Masnach Deg , a’r Cyngor Hawliau Plant. Drwy gynnal y cyfarfodydd yma mae’r ysgol yn sicrhau nid yn unig bod y disgyblion yn creu cymuned eu hunain o fewn y cyngor, ond hefyd maent yn dysgu am faterion moesol, byd eang fydd o fudd iddynt pan yn camu fewn i’r gymuned ehangach. Caiff system gyffelyb ei chynorthwyo gan Estyn fel arfer effeithio- ymgorffori llais y disgybl yn ethos yr ysgoll. Drwy wneud hyn mae’r ysgol yn sicrhau cymuned gynhwysol. Mae’r arferion hyn yn ogystal yn cael effaith sylweddol ar les cymdeithasol ac emosiynol y plentyn. (Estyn,2019)

Dyma weledigaeth fy ysgol lleoliad. Mae’r ysgol hefyd yn anelu i ddefnyddio’r technolegau esblygiadol fel cyfrwng i wella’r dysgu heb gyfyngiadau.(Fy ysgol lleoliad,2019)




“Cysylltu’r Cenhedloedd”

Enghraifft o’r ysgol yn gwneud cysylltiadau ag aelodau hŷn yn y gymuned yw; bu rhai disgyblion o’r ysgol yn canu yn yr **eglwys** mewn cyngherddau ac ati. Mae cysylltiad agos rhwng yr ysgol â’r eglwys. Drwy wneud hyn yn ogystal caiff y disgyblion gyfleoedd i brofi gwahanol grefyddau o fewn eu cymuned leol. Mewn erthygl yn ‘The Guardian’ (Tapper,2019), wrth werthuso arbrawf a wnathpwyd mewn ardal yn Lloegr rhwng yr henoed a phlant dywedodd Alistair Bryce-Clegg sydd yn ymgynghorydd yn y blynyddoedd cynnar- “The outcomes for the children were very positive. They all made notable progress during their time in the experiment, with some of them making truly significant steps forward in their development.” (Bryce-Clegg,2019). Cefnoga hyn y syniad y mae yr ysgol wedi ei ymgymryd, mae tystiolaeth gadarn bod effaith yr henoed ar blant yn gadarnhaol dros ben. Yn fy ysgol lleoliad i, roedd hefyd griw o wirfoddolwyr yn mynychu sesiynau darllen gyda disgyblion, roedd rhain yn sesiynau byr o tua deng munud yr un. Wedi trafod gydag un o’r gwirfoddolwyr dywedodd ei bod yn gweld budd enfawr o’r sesiynau hyn, nid yn unig i’r plant ond iddi hi ei hun am ei bod yn dysgu’r Gymraeg. Yn yr erthygl o’r Guardian, dywed bod cymysgu plant gyda’r henoed yn rheolaidd yn gwella a datblygu eu sgiliau iaith, darllen a’u sgiliau cymdeithasol . (The Guardian,2019). Yn ogystal, gwelir hefyd ar wefan Estyn bod un ysgol wedi cael cydnabyddiaeth o arfer effeithiol drwy fynychu cartref henoed lleol gyda rhai o’u disgyblion yn rheoliadd. Yn ôl Estyn mae’r bartneriaeth yma o ‘Gysylltu’r Cenedlaethau “yn rhoi cyfle i’r plant ryngweithio â phobl eraill, ac maent wedi datblygu eu hyder a’u hunan-barch. Un ffordd arall y mae’r ysgol yn cysylltu eu disgyblion â’r gymuned yw drwy fod yn rhan o gynllun sydd yn cysylltu cartrefi henoed, a **chartrefi dementia** gydag ysgolion cynradd. Bu rhai disgyblion yn canu ac yn ymweld â’r cartref henoed cyfagos. Drwy wneud hyn, mae’r ysgol yn cysylltu eu disgyblion â’r gymuned agos, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt brofi profiadau newydd o fewn y gymuned.

Effaith cynnwys y rhieni yn addysg y dysgwyr ar safonau disgyblion

Fel y gwelir yn y graff isod, mae cyfranogiad y rhieni yn addysg eu plentyn yn cael effaith sylweddol ar safonau’r dysgwr. Daw hyn i’r amlwg pan yn edrych ar y gwahaniaeth yn safon y pletyn pan mae cyfranogiad o’r cartref yn uchel o ymharu â chanolog. Mae’r gwahaniaeth bychan yna o egni gan y rhieni wir yn cael effaith mawr ar y dysgwr. “In the early years, parental involvement has a significant impact on children’s cognitive development and literacy and numeracy skills”(Adran Addysg Lloegr,2002). Mae’r effaith mor gadarnhaol ar blentyn fel bod tldodi yn cael llai o effaith os yw’r rhiant yn ymrwymo ac yn diddori eu hunain yn addysg eu pentyn (J.W.B,Douglas. 1964).



Mae’n bwysig ein bod yn sicrhau bod y gylched yma yn cael ei gweithredu trwy’r amser er mwyn sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng y cartref â’r ysgol. Mae’n creu ymdeimlad cyfforddus i’r rhieni bod yr athrawon yn gofalu am eu plentyn ac yn ymwybodol o’u hanghenion, ac yn trin eu plentyn fel unigolyn ac nid aelod o ddosbarth.Yn wir, mae’r effaith yn amhrisiadwy.



Cysylltu’r dysgwr a’r ysgol â’r rhieni/cartref

Polisi Drws Agored

Drwy ystod y Cyfnod Sylfaen yn fy ysgol lleoliad mae ganddynt bolisi drws agored i rieni neu ofalwyr. Hynny yw, bod gan y rhieni hawl i ddod mewn i’r dosbarth i drafod neu ddweud unrhywbeth sydd yn eu pryderu mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn ffordd hynod effeithiol o greu’r ymdeimlad bod yr ysgol yn gartrefol ac yn croesawu’r plant a’u rhieni neu ofalwyr, a’u bod yn wir eisiau’r gorau i bob un disgybl.

Sut mae gwneud y cysylltiad yma yn un effeithiol?

Yn ôl Patricia Williams ar wefan ‘Inclusive school’s Network’ mae angen tri pheth er mwyn creu cysylltiad gadarnhaol rhwng yr ysgol â’r cartref. Yn Saesneg gelwir rhain yn y “3 R’s” sef; respect, relationship a responsibility.

- **Parch:** Mewn perthynas bositif rhwng y cartref a’r ysgol, mae anghenion y ddwy ochr yn cael eu parchu gan y naill ochr. Yn galonogol y peth pwysicaf oll yw sicrhau bod anghenion y disgybl yn cael eu cyfarfod er mwyn bod yn llwyddiannus yn yr ysgol. Yn ogystal, mae’n rhaid i’r rhieni neu ofalwyr gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud am addysg eu plentyn. Gall y polisi yma hefyd olyg, ar rai adegau, bod y rhieni neu ofalwyr angen cymorth ychwanegol er mwyn cyflawni’r gofynion sydd arnynt i sicrhau bod eu plentyn yn llwyddo. Er enghraifft, os oes anabledd ganddynt, neu eu bod yn rhieni ifanc. Yn gryno, os yw’r ddwy ochr yn gweithio tuag at yr un peth, sef y cyfle gorau i’r disgybl yna bydd y berthynas yma yn siwr o fod yn un gadarnhaol ac effeithiol dros ben.
- **Perthynas:** Y prif beth i’w nodi yma yw bod angen adeiladu ymddiriedaeth rhwng yr ysgol â’r rhieni neu ofalwyr. Yn yr un modd rydym ni fel athrawon yn adeiladu’r ymddiriedaeth yma yn ein dosbarthiadau. Mae’r berthynas yma yn meithrin y gydweithrediad sydd yn hanfodol er mwyn sicrhau y gorau i bob disgybl yn ei fywyd yn yr ysgol.
- **Cyfrifoldeb:** Mae’r berthynas yma rhwng yr ysgol â’r cartref yn gweithio ddwy ffordd. Fel y dywedodd Joyce Epsteen sydd yn brifweithredwraig adran ‘Parent School and Community Partnerships’ ym Mhrifysgol John Hopkins; “Our charge is to create parent-friendly schools and school-friendly homes”. Golyga hyn bod yr ysgol yn dathlu hunaniaeth pob plentyn yn unigol, ac yn ystyried eu cefndiroedd wrth eu haddysgu, a bod y cartref yn yr un modd yn pwysleisio pwysigrwydd yr ysgol ac yn eu cynorthwyo gydag elfennau fel gwaith cartref.



Urdd(Ffynhonnell:Wikipedia,2019)

Yr ysgol yn canolbwyntio ar hawliau plant

Un strategaeth effeithiol arall o gynnwys y disgyblion ym mywyd yr ysgol a’i chymuned a welais yn fy ysgol lleoliad oedd cynnal gwersi hawliau plant i’r disgyblion. Wrth drafod gyda disgyblion blynyddoedd 1 a 2, roedd nifer ohonynt yn ymwybodol o rai o’u hawliau fel plant. Roedd hyn yn cynnwys, bod ganddynt yr hawl i addysg, cariad a dwr glân. Gwelir hefyd bod siarter dosbarth ym mhob dosbarth yn yr ysgol, sydd yn cynnwys rhai o’r 42 hawl y mae’r dosbarth hwnnw wedi dewis canolbwyntio arnynt. Gwelir hyn unwaith eto yn enghraifft o arfer effeithiol gan arolygwyr Estyn. Drwy wneud hyn, mae’r plant yn teimlo eu bod yn ddiogel yn eu hysgol, bod pawb yn cael cyfle cyfartal ac yn olaf bod disgyblion yn teimlo perchnogaeth dros eu hysgol. (Estyn,2018)

Yr Urdd

Yn fy ysgol lleoliad gwelais bod pwyslais helaeth yn cael ei roi ar gystadlu yn Yr Urdd. Yn y cyfnod yma o’r flwyddyn, mae’r staff i gyd yn dod ynghyd i ddysgu a threfnu gwahanol gystadlaethau ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion yn cael rhannu eu doniau, ac ymarfer eu sgiliau canu, dawnsio a pherfformio. Daw hyn â’r syniad yma o ddiwylliant Gymreig yn rhan o’r ysgol, mae’n hynod bwysig bod plant yn cael cyfle i brofi elfennau o’n diwylliant yma yng Nghymru. Mae hyn yn enghraifft o’r ysgol yn defnyddio arbenigedd eu staff sydd yn arfer effeithiol yn ôl Estyn. Mae’r disgyblion wir yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, sydd hefyd yn gyfrwng gwerthfawr i hybu’r iaith Gymraeg o fewn yr ysgol. Mae’r syniad yma o annog y disgyblion yn codi yma eto, wrth i’r staff annog y disgyblion i gystadlu a chymryd rhan mewn gwyl sydd yn uno’r gymdeithas Gymreig ar hyd a lled y wlad.

## **Rhestr Gyfeirnodi**

Aberdeen, U. (2019). *Exploring the concept of community in relation to Early Years practice | Journal | Education | The University of Aberdeen*. [ar-lein] Abdn.ac.uk. Ar gael yn: <https://www.abdn.ac.uk/education/research/eitn/journal/536/> [Gwelwyd 4 Chwefror. 2020].

Annals of Child Development, Volume 6, Six Theories of Child Development: Revised Formulations and Current Issues. Greenwich, CT: JAI Press, pp.187-249.

Barnes, J. (n.d.). *Cross-Curricular Learning 3-14*.

BERK, L., (2000). Child Development. 5th ed. Boston: Allyn and Bacon.

BRONFENBRENNER, U., (1979). The Ecology of Human Development. Cambridge, MA: Harvard University Press.

BRONFENBRENNER, U., (1989). Ecological Systems Theory. In R. Vasta, ed.

BRONFENBRENNER, U., (1994). Ecological Models of Human Development. International Encyclopedia of Education, Volume 3, 2nd edition. Oxford: Elsevier pp. 37-43.

Discover, K. (2017). *The Benefits of Cross-Curricular Learning - Kids Discover*. [ar-lein] Kids Discover. Ar gael yn: <https://www.kidsdiscover.com/teacherresources/the-benefits-of-cross-curricular-learning/> [Gwelwyd 1 Chwefror. 2020].

Douglas,J.W.B (1964) The Home and School.

Estyn.llyw.cymru. (2013). *Adroddiad Ysgol Griffith Jones*. [ar-lein] Ar gael yn: [https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Griffith%20Jones%202013\\_0.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Griffith%20Jones%202013_0.pdf) [Gwelwyd 3 Chwefror. 2020].

Estyn.llyw.cymru. (2013). *Adroddiad Ysgol Griffith Jones*. [ar-lein] Ar gael yn: [https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Griffith%20Jones%202013\\_0.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Griffith%20Jones%202013_0.pdf) [Gwelwyd 22 Ionawr. 2020].

Estyn.llyw.cymru. (2019). *Cysylltu’r cenedlaethau | Estyn*. [ar-lein] Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/cysylltur-cenedlaethau> [Gwelwyd 3 Chwefror. 2020].

Estyn.llyw.cymru. (2019). *Diwylliant yr ysgol yn canolbwyntio ar hawliau plant | Estyn*. [ar-lein] Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/diwylliant-yr-ysgol-yn-canolbwyntio-ar-hawliau-plant> Gwelwyd Chwefror 6. 2020].

Estyn.llyw.cymru. (2019). *Meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a theuluoedd | Estyn*. [online] Available at: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-efeithiol/meithrin-perthnasoedd-cadarnhaol-gyda-rhieni-theuluoedd> [Gwelwyd 3 Chwefror. 2020].

GALINSKY, E., (1999). Ask the children. New York, NY: William Morrow & Company

Inclusiveschools.org. (2016). *How Do We Build Effective Parent-School Partnerships in Inclusive Schools?*. [ar-lein] Ar gael yn:: <https://inclusiveschools.org/how-do-we-build-effective-parent-school-partnerships-in-inclusive-schools/> [Gelwyd 3 Chwefror. 2020].

KWAK, D.-H. and JAIN, H., (2016). The Role of Web and E-Commerce in Poverty Reduction: A Framework Based on Ecological Systems Theory. In: V.

Llyw.cymru. (2019). [ar-lein] Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/thema-3-croesawu-teuluoedd-i-ymgysylltu-a-r-ysgol-adnoddau-1-9.pdf> [Gwelwyd 5 Chwefror. 2020].

McLAREN, L. and HAWE, P., (2005). Ecological Perspectives in Health Research. Journal of Epidemiology & Community Health, 59(6), pp. 6-14.

McLeod, S. A. (2018,). Skinner - operant conditioning. Simply psychology Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/operant-conditioning.html> [Gwelwyd Ionawr 22,2020]

McLeod, S. A. (2018). Pavlov's dogs. Simply psycholog Ar gael yn : <https://www.simplypsychology.org/pavlov.html> [Gwelwyd Ionawr 26 2020]

PIPHER, M., (1996). The Shelter of Each Other: Rebuilding Our Families. New York, NY: Ballentine Books.

PSYCHOLOGY NOTES HQ, (2013). What is Bronfenbrenner’s Ecological Systems Theory?. Ar gael yn: <https://www.psychologynoteshq.com/bronfenbrenner-ecological-theory/>

ROGOFF, B., (2003). The Cultural Nature of Child Development. New York, NY: Oxford University Press.

SHAFFER, D.and KIPP, K., (2010). Developmental Psychology: Childhood and Adolescents. Belmont, CA: Wadsworth.

SUGUMARAN, V. YOON and M. J. SHAW, eds. E-Life: Web-Enabled Convergence of Commerce, Work, and Social Life: 15th Workshop on e-Business, WEB 2015, Fort Worth, Texas, USA, December 12, 2015, Revised Selected Papers. Cham: Springer International Publishing Switzerland, pp. 143-154.

Tapper, J. (2019). *How the elderly can help the young – and help themselves*. [online] the Guardian. Ar gael yn : <https://www.theguardian.com/society/2019/jan/05/children-eldery-intergenerational-care-advantages> [Gwelwyd 1Chwefror . 2020].